

Atodiad: Rhestr o Addasiadau

Noder: Mae'r Atodiad hwn yn grynodeb o'r addasiadau i'r Gorchymyn Diwygio (Llinell) drafft a'r Gorchymyn Amrywio Ffyrdd Ymyl drafft (Rhif 2) a gyhoeddwyd ar 23 Gorffennaf 2020. Nid oes angen unrhyw Addasiadau i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol drafft (Rhif 2)

GORCHYMYN DIWYGIO (LLINELL) DRAFFT

Addasiad Rhif 1. - Mân newidiadau teipograffyddol i gywiro'r testun yn Erthyglau 3 a 4 i gyfeirio at y nifer gywir o is-baragraffau yng Ngorchymyn Llinell 1999 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llinell Ddiwygio 2019.

GORCHYMYN AMRYWIO FFYRDD YMYL DRAFFT (RHIF 2)

Addasiad Rhif 1. - Diwygio Cynllun Safle 2B i ddangos y ffurfweddiad gwreiddiol a chyfeirnodau ar gyfer cyfeirnod Mynedfa Breifat 2/4a newydd a chyfeirnod priffordd newydd 2/L (llwybr troed) fel y dangosir ar y Cynllun Safle 2A wedi'i adneuo a gynhwyswyd yn y Gorchymyn Amrywio Ffyrdd Ymyl 2020 a wnaed.

Noder – Mae Atodlen 2 y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a wnaed yn cynnwys cyfeirnod 2/4a Mynedfa Breifat newydd sy'n cydfodoli â'r cyfeirnod 2/L llwybr troed newydd a chytunwyd gyda'r buddiannau perthnasol y bydd hyn yn troi'n ôl at y gosodiad ar gyfer y priffyrdd hyn fel y dangosir ar Gynllun Safle 2A y Gorchymyn Amrywio Ffyrdd Ymyl 2020 a wnaed. (Mae'r holl dir sydd ei angen i droi'n ôl at osodiad gwreiddiol y Fynedfa Breifat a'r llwybr troed cydfodol wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol a wnaed).